**Cyfarfod y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol**

**Cofnodion y cyfarfod**

**Dyddiad:** 11 Chwefror 2026 **Amser:** 09.30am Cyfarfod Teams

**Yn bresennol:**

- Tony Young (Cadeirydd y Bwrdd Cenedlaethol)
- Lin Slater (Is-gadeirydd y Bwrdd Cenedlaethol)
- Desmond Mannion (Aelod o'r Bwrdd)
- Artie Meakin (Aelod o'r Bwrdd)
- Dave Street (Aelod o'r Bwrdd)
- John Williams (Aelod o'r Bwrdd)
- Emma Logan (Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd Cenedlaethol)
- Taryn Stephens (Llywodraeth Cymru)
- Zarah Newman (Llywodraeth Cymru)
- Jan Pickles (Allanol)

---

## 1. Croeso ac ymddiheuriadau

Agorodd yr Is-gadeirydd y cyfarfod drwy estyn croeso cynnes i bawb a oedd yn bresennol. Cadarnhawyd hefyd y byddai'r Cadeirydd yn ymuno â'r cyfarfod yn nes ymlaen oherwydd ymrwymiadau blaenorol.

## 2. Datgan gwrthdaro o ran buddiannau

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau.

Cafodd yr aelodau eu hatgoffa am y gofyniad i lenwi a dychwelyd y ffurflenni blynyddol am wrthdaro o ran buddiannau. Eglurwyd bod yn rhaid llofnodi pob un o adrannau'r ffurflen, gan gynnwys y rhai lle nad oedd yr aelod yn datgan unrhyw wrthdaro. Mae hynny'n sicrhau bod yr holl ddatganiadau'n gynhwysfawr a bod pob aelod yn eu cydnabod yn ffurfiol.

Yn ystod y drafodaeth, codwyd sawl pwynt allweddol:

- Nododd y Bwrdd fod angen arweiniad cliriach am wrthdaro gwirioneddol a gwrthdaro canfyddedig o ran buddiannau, er mwyn sicrhau bod pob sefyllfa bosibl yn cael ei chydnabod a'i rheoli yn briodol.
- Pwysleisiwyd pwysigrwydd cynnal tryloywder ym mhob gweithgaredd, ochr yn ochr â'r angen am gamau lliniaru priodol os nodwyd unrhyw wrthdaro o ran buddiannau.
- Cytunwyd y bydd y Bwrdd yn parhau i gynnal cofrestr flynyddol ffurfiol o fuddiannau, yn ychwanegol at y broses bresennol ar gyfer datganiadau neilltuol wrth i amgylchiadau newydd godi.

## 3. Cofnodion a chamau gweithredu'r cyfarfod blaenorol

Cadarnhaodd y Bwrdd fod trafodaethau'r cyfarfod blaenorol wedi'u hadlewyrchu yn gywir. Adolygodd yr aelodau y pwyntiau gweithredu, a darparwyd diweddariadau os oedd hynny'n berthnasol ac os oedd diweddariadau ar gael.

## 4. Diweddariad ynghylch penodi aelodau i'r Bwrdd Cenedlaethol

Cafodd y Bwrdd ddiweddariad ynghylch y penodiadau presennol a'r rhai sydd i ddod. Mae cyfweliadau ar gyfer aelodau newydd wedi'u trefnu, a'r bwriad yw sefydlu Bwrdd newydd mewn pryd ar gyfer y flwyddyn ariannol newydd. Cafodd cynllunio olyniaeth ar gyfer rolau'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd ei drafod, a chytunwyd y gallai'r aelodau newydd a benodwyd fynychu cyfarfodydd fel sylwedyddion cyn eu bod yn cychwyn yn ffurfiol.

## 5. Diweddariad ynghylch Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Cenedlaethol

Mae'r Adroddiad Blynyddol wedi'i gwblhau ac mae'n barod i'w ddosbarthu. Mynegodd y Bwrdd bryder am yr oedi o ran ei gyhoeddi.

## 6. Cynllun gwaith y Bwrdd Cenedlaethol

Bu'r aelodau yn trafod cynllun gwaith y Bwrdd, a gwnaethant gytuno y byddai'r drafft yn cael ei ddatblygu ymhellach a'i ddosbarthu er mwyn cael sylwadau ac adborth yn ei gylch.

## 7. Diwrnod Datblygu – diweddariad a'r camau nesaf

Roedd adborth o'r Diwrnod Datblygu diweddar wedi'i adlewyrchu yn y cynllun gwaith diwygiedig. Cytunodd y Bwrdd fod allbynnau'r Diwrnod Datblygu yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer cynllunio yn y dyfodol. Cafodd rhai newidiadau eu gwneud i'r ddogfen yn ystod y cyfarfod. Bydd y ddogfen yn parhau'n ddogfen gyfeirio fyw a bydd yn llywio gwaith ymgysylltu â phartneriaid allanol.

## 8. Digwyddiad bord gron y Bwrdd Cenedlaethol a Phrifysgol Metropolitan Manceinion ynghylch data – 24 Chwefror

Darparwyd diweddariad am y paratoadau ar gyfer y digwyddiad bord gron sydd ar ddod ynghylch data. Mae gwahoddiadau wedi'u hanfon i'r Byrddau Diogelu Rhanbarthol ac i ddadansoddwyr. Fodd bynnag, yn dilyn diweddariad gan Adran Diogelu ac Eirioli Llywodraeth Cymru a oedd yn nodi bod setiau data Cymru wedi'u datblygu yn ddiweddar, cytunodd y Bwrdd Cenedlaethol i ganslo'r digwyddiad bord gron er mwyn i'r wybodaeth dan sylw gael ei hystyried yn iawn.

## 9. Diweddariad Llywodraeth Cymru o ran addysg

Er bod trefniadau wedi'u gwneud i swyddog o Lywodraeth Cymru fynychu er mwyn darparu diweddariad ynghylch gwaith diogelu'r adran addysg, methwyd â chael diweddariad oherwydd nad oedd swyddog ar gael. Cytunodd y Bwrdd i aildrefnu'r eitem hon ar gyfer cyfarfod yn y dyfodol.

## 10. Diweddariad ynghylch y wefan a Strategaeth Gyfathrebu

Adroddwyd ynghylch cynnydd o ran symud gwefan y Bwrdd Cenedlaethol i ddarparwr newydd, ac adroddwyd hefyd ynghylch y gwaith parhaus o ddatblygu'r Strategaeth Gyfathrebu. Disgwylir y bydd y broses symud wedi'i chwblhau erbyn diwedd mis Mawrth, ac mae darpariaeth wedi'i chadarnhau yn y gyllideb ar gyfer lletya'r wefan a'i chynnal a'i chadw. Bydd hyfforddiant yn cael ei ddarparu er mwyn hwyluso'r gwaith o reoli cynnwys yn fewnol, a bwriedir datblygu systemau rheoli golygyddol a threfniadau llywodraethiant. Penderfynwyd y bydd 'Y Wefan a Chyfathrebu' yn dod yn eitem sefydlog ar yr agenda.

## 11. Adolygiad Llywodraeth Cymru er mwyn cryfhau trefniadau llywodraethiant ar gyfer diogelu

Roedd Jan Pickles a Zara Newman yn bresennol yn y cyfarfod er mwyn darparu diweddariad ynghylch cynnydd yr adolygiad o drefniadau llywodraethiant. Roedd y prif themâu a oedd yn dod i'r amlwg yn cynnwys anghysondeb ar draws rhanbarthau, achosion o ddyblygu ymdrech, a baich adroddiadau. Ceir cyfle i symud y ffocws o adrodd ynghylch cydymffurfio i gynllunio'n strategol. Trafodwyd y cysyniad o gael canolfan wybodaeth genedlaethol i hybu dysgu—a fyddai'n cynnwys arfer da, achosion fu bron â digwydd, a dealltwriaeth thematig.

## 12. Diweddariad gan Lywodraeth Cymru

Darparwyd diweddariad cyffredinol a oedd yn ymdrin â datblygiadau polisi sydd ar y gweill a gwaith alinio â blaenoriaethau'r Bwrdd. Roedd y diweddariad yn cynnwys gwybodaeth am y canlynol:

- Operation Beaconport: adolygiad y DU o ymchwiliadau sydd wedi cau i achosion o gam-drin plant yn rhywiol a chamfanteisio ar blant yn rhywiol ar sail grŵp. Disgwylir am y fethodoleg ar gyfer adolygu achosion yng Nghymru.
- Atgyfeirio Integredig Cymru Gyfan. Mae pedwar safle peilot yng Nghymru wedi'u nodi ac mae dau ohonynt wedi dechrau cynllun peilot.
- Mae'r Cynllun Gweithredu ar Gam-drin Plant yn Rhywiol wedi'i ddiweddaru a bydd cynllun cyflawni 3 blynedd yn cael ei gyhoeddi ym mis Mawrth.
- Mae'r Cynllun Gweithredu Cenedlaethol i Atal Cam-drin Pobl Hŷn wrthi'n cael ei ddiweddaru ar gyfer 2026.
- Nodwyd dangosfwrdd data diogelu Llywodraeth Cymru sydd newydd gael ei ddiwygio. Mae dangosfwrdd newydd ynghylch Gofalwyr wrthi'n cael ei ddatblygu.

## 13. Diweddariad ynghylch yr adolygiad thematig o Adolygiadau Ymarfer Plant

Rhoddwyd diweddariad ynghylch yr adolygiad thematig o Adolygiadau Ymarfer Plant, a disgwylir adroddiad drafft cyn bo hir. Bu'r Bwrdd yn trafod amlygrwydd cyfyngedig profiadau go iawn mewn adolygiadau, a nododd gyfleoedd i gryfhau'r elfen ddysgu a rhannu gwybodaeth.

## 14. Diweddariad ynghylch y gyllideb

Bu'r Bwrdd yn adolygu'r sefyllfa bresennol o ran y gyllideb. Caiff gweithgareddau cyfathrebu a'r broses o symud y wefan eu hariannu o fewn y gyllideb bresennol. Mae gwaith monitro parhaus yn ofynnol, a chafodd costau cyfieithu a chyhoeddi eu nodi.

## 15. Fforwm Gwrthgaethwasiaeth

Darparwyd diweddariad ynghylch ymgysylltu â'r Fforwm Gwrthgaethwasiaeth ac ynghylch gweithgareddau diogelu cysylltiedig. Nodwyd rhychwant eang gwaith y grŵp hwn. Bydd y Bwrdd Cenedlaethol yn cael cyflwyniad yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd.

## 16. Gofal Cymdeithasol Cymru

Cafodd y Bwrdd ddiweddariad ynghylch cydweithio ac ymgysylltu â Gofal Cymdeithasol Cymru, a oedd yn cynnwys gwaith ar ddiogelu trosiannol a datblygu ymarfer.

## 17. Diwrnod Datblygu Gogledd Cymru – 6 Mawrth 2026

Nodwyd y trefniadau ar gyfer Diwrnod Datblygu Gogledd Cymru, a chafwyd trafodaeth am gynrychiolaeth o'r Bwrdd ac amcanion y sesiwn.

## 18. WhatsApp

Bu'r Bwrdd yn trafod y modd y caiff y grŵp WhatsApp ei weinyddu er mwyn sicrhau parhad a chyfathrebu effeithiol yn ystod cyfnodau o newid yn yr aelodaeth.

## 19. Prosiect ymchwil Prifysgol Caerdydd

Cafodd y Bwrdd wybod am gynnig o ran ymchwil a oedd yn ymwneud â 'risg ac ymreolaeth' – gofyn am gydsyniad ym maes gofal cymdeithasol i oedolion. Gan ei fod yn berthnasol i flaenoriaethau'r Bwrdd, mae John Williams wedi derbyn gwahoddiad i fod yn aelod o Fwrdd y Prosiect er mwyn cynrychioli'r Bwrdd Cenedlaethol.

## 20. Diweddariadau gan y Byrddau Diogelu Rhanbarthol

Nodwyd y diweddariadau rhanbarthol, gan dynnu sylw at amrywiadau mewn ymarfer, y pwysau parhaus sydd ar Fyrddau, ac enghreifftiau o arloesi a herio.

## 21. Diweddariadau gan randdeiliaid

Rhannwyd diweddariadau gan randdeiliaid allweddol a oedd yn cynnwys Addysg, Arolygiaeth Gofal Cymru, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, partneriaid yn y sector gwirfoddol, arolygiaethau a chomisiynwyr, a grwpiau sy'n cydweithredu ym maes diogelu ledled y DU.

## 22. Unrhyw fater arall

Daeth y cyfarfod i ben am 16:40.